

Erthygl 3 Dinasyddion a'r Cyngor

3.1 Hawliau Dinasyddion

Mae gan ddinasyddion yr hawliau canlynol. Eglurir eu hawliau i gael gwybodaeth ac i gyfranogi yn fanylach yn y Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn:-

(a) **Pleidleisio a deisebau** - Mae gan ddinasyddion ar gofrestr etholiadol yr ardal hawl i bleidleisio ac arwyddo deiseb i ofyn am refferendwm o blaid cyfansoddiad sydd â maer etholedig.

(b) **Yr hawl i ddeisebu yn unol â chynllun deisebu'r Cyngor**

(c) **Gwybodaeth** - Mae gan ddinasyddion hawl i:-

- (i) fynychu cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'i bwyllgorau ac eithrio lle mae gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig yn debygol o gael ei datgelu, a bod y cyfarfod felly yn cael ei gynnal yn breifat; (Lle bo'r cyfarfodydd hyn yn gyfarfodydd corfforol, bydd gan ddinasyddion yr hawl i fynychu lleoliad y cyfarfod; lle bônt yn rhithwir gallant wylïo'r gweddarllediad (os yw ar gael) a lle bônt yn hybrid bydd hawl ganddynt i fynychu lleoliad y cyfarfod neu wylïo'r gweddarllediad, fel maent yn ei ddymuno.) Bydd y Cyngor yn penderfynu a yw'r cyfarfodydd hyn i fod yn rhai corfforol, rhithwir neu gyfuniad o'r ddau (hybrid).
- (ii) cymryd rhan yn sesiwn holi ac ateb y Cyngor. Gall y cyhoedd, cyn belled ag y bônt yn byw yn y sir, yn berchen busnes yn y sir, neu'n cael eu cyflogi yn y sir, ofyn cwestiynau i aelodau o'r weithrediaeth mewn cyfarfodydd arferol o'r Cyngor, cyflwyno deisebau, a chymryd rhan yn y ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu, yn unol â'r rheolau a bennir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.
- (iii) darganfod o'r flaenraglen waith pa benderfyniadau a gymerir gan y Bwrdd Gweithredol neu'r Cyngor a pha faterion y bydd y pwyllgorau craffu yn eu hystyried, a phryd y bydd y materion hyn yn cael eu trafod;
- (iv) gweld adroddiadau a phapurau cefndir, ac unrhyw gofnodion o benderfyniadau a wnaed gan y Cyngor a'r Cabinet; ac
- (v) archwilio cyfrifon y Cyngor a mynegi eu barn i'r archwilydd allanol.

(d) **Cyfranogiad** - Mae gan ddinasyddion yr hawl i gyfrannu at benderfyniadau'r Cyngor, yn unol â Strategaeth Gyfranogi'r Cyngor a Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn. Lle bo'r cyfarfodydd hyn yn rhai corfforol, bydd gan ddinasyddion yr hawl i fynychu lleoliad y cyfarfod, lle bo'r cyfarfodydd yn rhithwir, bydd dinasyddion yn cael mynediad i'r cyfarfod ar-lein i ofyn eu cwestiwn, cyflwyno eu deiseb neu gymryd rhan (trwy fideogynhadledd neu delegynhadledd), a lle bo'r cyfarfod yn hybrid, bydd hawl ganddynt i fynychu lleoliad y cyfarfod neu gael mynediad yn rhithwir (fel maent yn ei ddymuno).

(e) **Cwynion** - Mae gan ddinasyddion yr hawl i gwyno:-

- (i) wrth y Cyngor ei hun o dan ei gynllun cwynion;
- (ii) wrth yr Ombwdsmon am unrhyw anghyfiawnder y maent wedi ei ddioddef o ganlyniad i gamweinyddu, ond fe'u hanogir i ddefnyddio cynllun cwynion y Cyngor ei hun yn gyntaf;
- (iii) wrth yr Ombwdsmon lle credant fod aelod neu aelod cyfetholedig o'r Cyngor wedi torri Côt Ymddygiad yr Aelodau.

3.2 Cyfrifoldebau Dinasyddion

Rhaid i ddinasyddion beidio â bod yn dreisgar, yn ddifriol nac yn fygythiol tuag at gynghorwyr na swyddogion, a rhaid iddynt beidio â gwneud unrhyw ddifrod bwriadol i bethau sy'n eiddo i'r Cyngor, i gynghorwyr neu i swyddogion.